YSGOL GRIFFITH JONES

Heol yr Orsaf
Sanclêr
Sir Gaerfyrddin
SA33 4BT
Ffôn/ Phone: 01994 230589

Station Road
St Clears
Carmarthenshire
SA33 4BT
Ffacs/Fax: 01994 230280

Pennaeth ***Mr Emyr Davies*** **Headteacher**
Cyfeiriad e-bost - admin@griffith.ysgolccc.org.uk - ***e-mail Address***
Tudalen Wê yr Ysgol – www.griffithjones.amdro.org.uk – ***School Web Page***
Trydar - @GriffithJones92 - ***Twitter***

25ain o Hydref 2017

Annwyl Riant / Gwarcheidwad

Ysgrifennaf atoch i'ch atgoffa am eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda Corff Llywodraethol yr Ysgol. Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. **Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.**
   Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol, neu 30 o ddisgyblion cofrestredig, pa un bynnag sydd leiaf lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'llofnodi'r' ddeiseb electronig.

   Roedd 294 o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol hon ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2. **Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.**
   Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu.

   Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. **Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol**
   Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda

Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme
ICT MARK ACCREDITED
NEXT GENERATION LEARNING
GWEITHREDU'N DEG
FAIR ACTIVE SCHOOL
WE ARE A FAIR ACHIEVER SCHOOL
ActiveMark MarcActif Cymru 2014-17

chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. **Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol**
Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.
Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethol
Ysgol Griffith Jones
Heol yr Orsaf
Sanclêr
SA33 4BT
neu'n electronig – admin@griffith.ysgolccc.org.uk

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy

Yn ddiffuant

E. Davies

Emyr Davies
Pennaeth